

ADRODDIAD BLYNYDDOL – 2013/14

Y Cynghorydd: Anne Lloyd-Jones	Grŵp: Annibynnol												
Ward: Tywyn													
Bwriad yr adroddiad blynyddol:													
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw cynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.													
Rôl a chyfrifoldebau:													
Cynrychioli buddion y gymuned yng Nghyngor Gwynedd. Cynrychioli'r Cyngor ar gyffwrdd allanol.													
Gweithgareddau etholaethol:													
Fel Is-gadeirydd pwyllgor Cronfa Apêl yr Ysbyty a chan weithio gyda'r grŵp prosiect, buom yn llwyddiannus wrth ddenu dros £5miliwn tuag at ganolfan gofal sylfaenol newydd a wardiau gydag 16 o wlaŵ yn Ysbyty Tywyn a gobeithiwn y bydd y gwaith wedi'i gwblhau cyn diwedd 2015.													
Mae'r Pwyllgor Apêl hefyd wedi rhoi dros £100,000 tuag at uned pelydr-x newydd ac ailwampio'r ystafell.													
Fel Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Penybryn, rydym wedi cwblhau neuadd newydd yn ddiweddar, ynghyd â uwchraddio'r holl ddosbarthiadau ar gost o dros £1.8miliwn. Hefyd, sicrhawyd bod cyllid ar gael ar gyfer gwaith yn Ysgol Uwchradd Tywyn.													
Cefais amrywiol gyfarfodydd gyda swyddogion Gwynedd, yr Aelod Cynulliad Dafydd Elis-Thomas a'r Aelod Seneddol Elfyn Llwyd ynghylch materion etholaethol. Cefais gyfarfod ar y cyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, yr Aelod Cynulliad ac Ymgynghoriaeth Gwynedd yn dilyn y stormydd fis Ionawr.													
Mentrau a gweithgareddau eraill:													
Wedi mynychu cyfarfodydd misol y Cyngor Tref a'r amrywiol is-bwyllgorau. Fel Cadeirydd Ymddiriedolaeth Ynysmaengwyn, cawsom lwyddiant yn ennill y Wobr Baner Werdd ar gyfer y Parc eto eleni.													
Cefais gyfarfod gyda'r Gweinidog John Griffiths AC yn gynharach eleni er mwyn iddo weld cyswllt pwysig pont Tonfannau i'r Llwybr Arfordir, prosiect yr wyf wedi bod yn rhan ohono gyda Phartneriaeth Tywyn ers sawl blwyddyn. Mae'r llwybr beics rhwng Tywyn ac Aberdyfi wedi'i ddechrau ond yn anffodus ar hyn o bryd nid oes cyllid ar gael i gwblhau'r gwaith.													
Fel Cadeirydd Twristiaeth Canolbarth Cymru ers 2001 a Chyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru, rwy'n cael cyfarfodydd cyson gyda Gwleidyddion a thîm Croeso Cymru i sicrhau bod yr holl ardal yn elwa'n economaidd o'r diwydiant twristiaeth.													
Fel trysorydd cangen lleol yr NSPCC ers 1989, y llynedd fe wnaethom godi dros £2k yn yr ardal, ac fel trysorydd Apêl yr Urdd ym Meirionnydd, fe wnaethom godi dros £6,000.													
Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau isod:													
<table border="1"><thead><tr><th>PWYLLGOR</th><th>YN BRESEN NOL</th></tr></thead><tbody><tr><td>Y Cyngor</td><td>4</td></tr><tr><td>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</td><td>3</td></tr><tr><td>Pwyllgor Cynllunio</td><td>14</td></tr><tr><td>Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi</td><td>2</td></tr><tr><td>Fforwm Ardal Meirionnydd</td><td>4</td></tr></tbody></table>	PWYLLGOR	YN BRESEN NOL	Y Cyngor	4	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	3	Pwyllgor Cynllunio	14	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi	2	Fforwm Ardal Meirionnydd	4	
PWYLLGOR	YN BRESEN NOL												
Y Cyngor	4												
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	3												
Pwyllgor Cynllunio	14												
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi	2												
Fforwm Ardal Meirionnydd	4												
Canran Presenoldeb: 93%													
Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol isod:													
<ul style="list-style-type: none">Panel is-grŵp llyfrgelloedd													

- Grŵp ad-drefnu ysgolion Meirionnydd
- Prif Bwyllgorau Craffu
- Gweithgor Cyflogaeth Meirionnydd
- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r ymgynghoriad
- Gweithdy Ailgylchu
- Ymgysylltu â'r Cyhoedd
- Hyfforddiant i Lywodraethwyr Ysgolion
- Diwrnodau hyfforddiant Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol isod:

Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Mynychais yr holl gyfarfodydd bwrrd ac rwy'n Gadeirydd y pwyllgor AD ac yn aelod o'r pwyllgor Gweithrediadau. Mynychais y Gynhadledd Tai deuddydd Blynyddol. Ysgol Penybryn, Tywyn (Llywodraethwr) Ysgol Uwchradd Tywyn (Llywodraethwr)

Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd isod:

Cronfa Addysg Dr Williams
Cyfarfodydd cyswllt Arfordir y Cambria/cyfarfodydd ar y cyd yr Amwythig i Aberystwyth ac Arfordir y Cambria.
Partneriaeth Tywyn.
Grŵp Pecynnu'r Profiad Gwynedd
Seremoni Flynyddol Gwobrau 'Crime Beat' yr Uchel Siryf.
Seremoni wobrwyo Coleg Meirion Dwyfor.
Rhwydwaith cefnogi aelodau Cymru gyfan yn Elan Valley ar 18/03/14.

Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu isod:

Corfforaethol
Data Perfformiad yr Awdurdod ac Ysgolion
Llywodraethwyr Ysgolion ac Amddiffyn Plant
Gwybodaeth am Bobl: Eich Cyfrifoldeb Chi
Materion Priodoldeb ac Apeliadau Cynllunio
Strwythur a chyflwr economi Gwynedd
Hyfforddiant i Aelodau ac Eilyddion ar y Pwyllgor Cynllunio
Panel Rhiant Corfforaethol
Ychwanegol

Cyfanswm nifer o oriau: 17